

CYNGOR CYMUNED PENTREFOELAS COMMUNITY COUNCIL

Cadeirydd: Paul Weston

Nos Lun Mai 11eg 2015 am 7.30 y.h.

Cofnodion

1. **Ymddiheuriadau:** Cyng. Gwynfor Roberts.
2. **Presennol:** Cyng. Alun Edwards, Gari Jones, Alun Owen, Edmund Rees, Paul Weston a Dilwyn Roberts.
3. **Cod Ymddygiad:** Neb yn datgan diddordeb.
4. **Cofnodion mis Ebrill** cynigiwyd yn gywir gan Alun Edwards gydag Edmund Rees yn eilio.
5. **Materion y Codi o'r Cofnodion:-**
 - 5.1. Sgip Gymunedol – cafwyd cadarnhad bydd y Sgip ar y Maes Parcio ar ddydd Sadwrn Mai 16eg 2015 o 9 o'r gloch ymlaen.
 - 5.2. Cafnau Blodau – penderfynwyd na fyddwn yn gosod cafnau ar wal y toiled eleni ond byddwn yn gosod un ar y Gofgolofn.
 - 5.3. Bwrdd Picnic – gan fod mainc wedi cyrraedd y safle yn lle'r un oedd wedi pydru ni fydd angen archebu bwrdd arall.
 - 5.4. Zurich – cyfrifoldeb y Cyngor Cymuned ydi'r gysgodfa bysus felly bydd rhaid cofnodi ar yr yswiriant ac angen amcan bris o werth yr adeilad.
6. **Gohebiaeth:**
 - 6.1. C.B.S.C. Yn amodol ar gyllid bydd Canolfan Ddiwylliannol newydd ar gyfer Sir Conwy yn cynnwys Llyfrgell Ardal, Archifdy sirol, Gofod Treftadaeth a Chelf Gymunedol.
7. **Saith Maes Allweddol:**
 - 6.1. Asesiad Risg
 - 6.2. Rheolau Sefydlog
 - 6.3. Rheoliadau ariannol
 - 6.4. Rheolaethau Mewnol
 - 6.5. Polisi ymateb i Gwynion
 - 6.6. Y Gyllideb Flynyddol
 - 6.7. Còd Ymddygiad.

Cyn mabwysiadu'r uchod awgrymodd Dilwyn Roberts ein bod yn anfon y dogfennau i'r adran Gyfreithiol yng Nghonwy iddynt ei archwilio a'i cywiro os bydd rhaid.
8. **Mantolen Ariannol:**
 - i) Cwblhawyd y Fantolen Ariannol a'i mabwysiadwyd yn gywir.
 - ii) Cydnabod cyfrifoldeb am baratoi'r cyfrifon a chadarnhau.
9. **Talu Cyfrifwyr:**

Cynigiodd Gari Jones gyda Edmund Rees yn eilio a phawb yn gytûn i dalu'r anfoneb o **£105. 00 + TAW £21. 00 = £126. 00** gyda siec rhif **100239**.
10. **Cais Cynllunio:**

Cais Rhif 0/41697 – Gwelliannau priffyrdd ar gyffordd yr A5/A546. Ni chafwyd gwrthwynebiad na sylwadau ar y Cais.

11. **Gair gan y Cyng. Dilwyn Roberts**

Nid oedd gan y Cyngorydd Sirol unrhyw ychwanegiad i'r hyn y cynigiodd ynghynt.

12. **Unrhyw fater arall:**

12.1. Cais Cynllunio SP Manweb – cafwyd gwrthwynebiad i'r cynllun ond nid oedd yn bosib gyrru sylwadau na barn.

12.2. C.B.S.C. – derbyniwyd y taliad cyntaf o'r Precept sef £1218. 00

12.3. TAW – wedi gyrru'r ffurflen a'r cais am £300. 13.

12.4. Y clerch i holi cyfrifoldeb pwy ydi'r clawdd weiar sydd rhwng y cae a'r toiledau cyhoeddus hefyd lle mae'r draen ac os oes gwifrau trydan yn rhedeg o dan ddaear.

13. **Dyddiad y cyfarfod nesaf nos Lun Mehefin 1af 2015 am 7.30 y.h.**
